OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2015 Rhif 1434 (Cy. 144)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A44 (Capel Bangor i Flaengeuffordd, Ceredigion) (Terfynau Cyflymder 40 mya Dros Dro ac 20 mya Rhan-amser) 2015

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *29 Mai 2015* |
| *Yn dod i rym* | *5 Mehefin 2015* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd y Drenewydd – Aberystwyth (yr A44) ("y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd y tebygolrwydd o berygl i'r cyhoedd.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1), (4) a (7) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2),** yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**Enwi, Dehongli a Chychwyn**

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 5 Mehefin 2015 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A44 (Capel Bangor i Flaengeuffordd, Ceredigion) (Terfynau Cyflymder 40 mya Dros Dro ac 20 mya Rhan-amser) 2015.

**2.** —(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "y darnau o'r gefnffordd" ("*the lengths of the trunk road*") yw'r darnau o'r gefnffordd rhwng Capel Bangor a Blaengeuffordd yn Sir Ceredigion a bennir yn yr Atodlenni i'r Gorchymyn hwn.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

**Cyfyngiadau**

**3.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 6, ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd, yn gyflymach nag 20 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1.

**4.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd, yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2.

**Atal Dros Dro**

**5.** Mae darpariaethau Gorchymyn Cefnffordd (Capel Bangor, Ceredigion) (Terfyn Cyflymder 40 mya) 1975**(3),** i'r graddau y maent yn gymwys i'r darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1, wedi eu hatal drwy hyn ar yr adegau hynny y mae'r cyfyngiad a bennir yn erthygl 3 yn weithredol.

**Cymhwyso**

**6.** Ni fydd darpariaethau erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y cyfyngiad y maent yn cyfeirio ato yn weithredol.

**7.** Ni fydd darpariaethau erthygl 4 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y cyfyngiad y maent yn cyfeirio ato yn weithredol.

**Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn**

**8.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 29 Mai 2015

*R Morgan*
**RICHARD MORGAN**
Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

**(1)** 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26), ac Atodlen 1 iddi.
**(2)** Yn rhinwedd erthygl 2 o O.S. 1999/672, ac Atodlen 1 iddo, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.
**(3)** O.S. 1975/1497

## YR ATODLENNI

### ATODLEN 1
### Terfyn Cyflymder 20 mya Rhan Amser Dros Dro

Y darn o’r gefnffordd sy’n ymestyn o bwynt 200 metr i’r dwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â’r ffordd sy’n arwain at Ysgol Gynradd Penllwyn, Capel Bangor hyd at bwynt 200 metr i’r gorllewin o’r gyffordd honno.

### ATODLEN 2
### Terfyn Cyflymder 40 mya Dros Dro

Y darn o’r gefnffordd sy’n ymestyn o bwynt 41 o fetrau i’r gorllewin o ganolbwynt ei chyffordd â’r ffordd sy’n arwain at Ysgol Gynradd Penllwyn, Capel Bangor hyd at bwynt 736 o fetrau i’r gorllewin o’i chyffordd â’r ffordd honno.